PET(4)-01-12 p12c

## P-03-314 Achub Theatr Powys a Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys

## Geiriad y ddeiseb

Yn dilyn penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i dynnu arian refeniw oddi ar Theatr Powys o fis Ebrill 2011, rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid priodol yn cael ei gadw ar gyfer Theatr Powys a Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys. Byddai methu â sicrhau hyn yn arwain at dynnu'r ddwy ddarpariaeth o'r cymunedau a gafodd eu gwasanaethu ganddynt am dri degawd; gan amddifadu pobl ifanc o gyfle sylweddol i ymgysylltu â'r Celfyddydau. Mae Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys hefyd yn un o nifer fach iawn o weithgareddau bugeiliol sydd ar gael i bobl ifanc yr ardal hon.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf:** Mawrth 2011

**Cynigwyd gan:** Michael Chadwick

**Nifer y llofnodion:** 1,152